# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 2

ABSENOLDEB TEULUOL AR GYFER AELODAU AWDURDODAU LLEOL

### 28 Absenoldeb rhiant

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i aelod o awdurdod lleol sy'n bodloni amodau rhagnodedig o ran—

(a) ysgwyddo cyfrifoldeb am blentyn; neu

(b) disgwyl ysgwyddo cyfrifoldeb am blentyn.

(2) Mae gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb ("absenoldeb rhiant") at ddibenion gofalu am y plentyn.

(3) Rhaid i reoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer penderfynu—

(a) i ba raddau y mae gan aelod hawl i absenoldeb rhiant mewn cysylltiad â phlentyn;

(b) pryd y caniateir cymryd yr absenoldeb rhiant.

(4) Ni chaniateir i reoliadau ddarparu i absenoldeb rhiant mewn cysylltiad â phlentyn fod yn hwy na chyfnod o dri mis neu gyfanswm o dri mis.

(5) Caiff darpariaeth o dan is-adran (3)(b) gyfeirio at y canlynol (ymhlith pethau eraill)—

(a) oedran plentyn, neu

(b) cyfnod rhagnodedig o amser sy'n dechrau gyda digwyddiad rhagnodedig.

(6) Caiff rheoliadau ragnodi amgylchiadau pan gaiff aelod o awdurdod lleol, neu pan gaiff yr awdurdod lleol—

(a) terfynu cyfnod o absenoldeb rhiant, neu

(b) diddymu cyfnod o absenoldeb rhiant.

(7) Caiff rheoliadau—

(a) (at ddibenion is-adran (2)), ragnodi pethau sydd i'w barnu neu beidio a'u barnu yn bethau sydd wedi eu gwneud, at ddibenion gofalu am blentyn;

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(b) ei gwneud yn ofynnol bod absenoldeb rhiant yn cael ei gymryd fel un cyfnod o absenoldeb ym mhob achos neu mewn achosion penodedig;
(c) ei gwneud yn ofynnol bod absenoldeb rhiant yn cael ei gymryd fel cyfres o gyfnodau o absenoldeb ym mhob achos neu mewn achosion rhagnodedig;
(d) ei gwneud yn ofynnol bod yr holl gyfnod o absenoldeb rhiant neu rannau rhagnodedig ohono yn cael ei gymryd neu eu cymryd ar adegau rhagnodedig neu erbyn adegau rhagnodedig;
(e) caniatáu i aelod ddewis, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau rhagnodedig, y dyddiad y mae cyfnod o absenoldeb rhiant yn dechrau;
(f) gwneud darpariaeth i awdurdod lleol ohirio cyfnod o absenoldeb rhiant y mae aelod yn dymuno ei gymryd;
(g) rhagnodi cyfnod lleiaf o absenoldeb neu gyfnod mwyaf o absenoldeb y caniateir ei gymryd fel rhan o gyfnod absenoldeb rhiant;
(h) rhagnodi uchafswm agregiad y cyfnodau o absenoldeb rhiant y caniateir eu cymryd yn ystod cyfnod rhagnodedig o amser.